# Pam mae Presenoldeb Ysgol Mor Bwysig?

YSGOL CALON CYMRU

Mae Ysgol Calon Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda disgyblion a'u teuluoedd i sicrhau presenoldeb ardderchog yn yr ysgol. Rydym yn annog pob myfyriwr i fynychu'r ysgol yn brydlon bob dydd, ac anelu at bresenoldeb o 100%, er mwyn sicrhau eu bod yn elwa i'r eithaf ar eu haddysg.

| | | |
|---|---|---|
| Mae eich plentyn yn manteisio i'r eithaf ar bob cyfle dysgu | **95%–100%** Siawns Orau o Lwyddo | Ar y Trywydd |
| Boddhaol, ond efallai y bydd rhaid i'ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny â'r gwaith | **90%–95%** Wedi colli o leiaf 2 Wythnos o Ddysgu | Ar y Trywydd |
| Gall fod eich plentyn ar risg o dangyflawni ac efallai y bydd angen cymorth ychwanegol gennych chi i ddal i fyny â'r gwaith | **85%–90%** Wedi colli o leiaf 4 Wythnos o Ddysgu | Ar Risg |
| Mae presenoldeb gwael eich plentyn yn effeithio'n sylweddol ar ddysgu | **80%–85%** Wedi colli o leiaf 5½ Wythnos o Ddysgu | Oddi ar y Trywydd |
| Mae eich plentyn yn colli allan ar addysg eang a chytbwys, ac rydych chi ar risg o gael eich erlyn | **75%–80%** Wedi colli o leiaf 7½ Wythnos o Ddysgu | Oddi ar y Trywydd |

# Cwestiynau Cyffredin ar Bresenoldeb Ysgol

YSGOL CALON CYMRU

## Pam mae presenoldeb ysgol mor bwysig?



Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn rhan bwysig o roi i blant y dechreuad gorau posibl mewn bywyd. Gall disgyblion sy'n absennol o'r ysgol yn aml fod ar ei hôl hi gyda'u gwaith a heb wneud cystal mewn arholiadau.



## Beth ydw i'n gwneud os fydd fy mhlentyn yn absennol o'r ysgol?

Os bydd eich plentyn yn absennol o'r ysgol am unrhyw reswm ffoniwch yr ysgol i roi gwybod i ni ar bob dydd yr absenoldeb.

Campws Llanfair ym Muallt: 01982 553 292
Campws Llandrindod: 01597 822 992

## Pam mae presenoldeb Go4Schools fy mhlentyn yn is nag y dylai fod?



Gall presenoldeb eich plentyn ar Go4Schools ymddangos yn is nag y mae mewn gwirionedd oherwydd system godio Llywodraeth Cymru ar gyfer 3ydd a 4ydd Medi pan oedd grwpiau blwyddyn rhannol yn bresennol yn yr ysgol. Fe fydd yn ymddangos fel absenoldeb awdurdodedig ar bresenoldeb eich plentyn.

**Os oes gennych gwestiwn nad yw wedi ei drafod yma, cysylltwch â ni trwy www.ysgolcalon.cymru/contact**